# Y CYNGOR DYDD IAU, 23 MEHEFIN 2022

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Elwyn Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd R.Medwyn Hughes (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr:- Craig ab Iago, Menna Baines, Beca Brown, Stephen Churchman, Glyn Daniels, Dafydd Owen Davies, Elwyn Edwards, Elfed Wyn ap Elwyn, Alan Jones Evans, Dylan Fernley, Delyth Lloyd Griffiths, Jina Gwyrfai, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Iwan Huws, Elin Hywel, Nia Jeffreys, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Elin Walker Jones, Gwilym Jones, Gareth Tudor Jones, Huw Wyn Jones, Linda A.Jones, June Jones, Menna Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dewi Owen, Gwynfor Owen, Llio Elenid Owen, Gareth Coj Parry, Nigel Pickavance, John Pughe, Rheinallt Puw, Arwyn Herald Roberts, Elfed P Roberts, Gareth A Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Williams, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Peter Thomas, Rob Triggs, Rhys Tudur, Hefin Underwood, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gruffydd Williams a Sasha Williams.

**Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dewi Morgan (Swyddog Cyllid Statudol), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Geraint Owen (Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth), Garem Jackson (Pennaeth Addysg), Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant), Carys Fon Williams (Pennaeth Tai ac Eiddo), Steffan Jones (Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol), Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Louise Hughes, Kim Jones, Edgar Owen, Beca Roberts ac Einir Wyn Williams.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 19 Mai, 2022 fel rhai cywir.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cydymdeimlwyd â'r canlynol:-

- Y Cynghorydd Edgar Owen a'r teulu ar golli ei fam yng nghyfraith.
- Y Cynghorydd Kim Jones a'r teulu ar farwolaeth ei thaid.

Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Ymdawelodd y Cyngor fel arwydd o barch a choffadwriaeth.

Llongyfarchwyd y Cynghorydd Elfed Wyn ab Elwyn a'i wraig ar eu priodas, a hefyd ar enedigaeth efeilliaid - dau hogyn bach.

Dymunwyd yn dda i Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol, oedd yn bresennol yn ei chyfarfod olaf o'r Cyngor. Nododd y Prif Weithredwr fod Morwena wedi rhoi bron i 20 mlynedd o wasanaeth i'r Cyngor, yn ei rôl bresennol fel Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol / Cyfarwyddwr Corfforaethol, ac fel Pennaeth Adran cyn hynny, ac y bu'n gweithredu hefyd fel Dirprwy Brif Weithredwr dros y 3-4 blynedd ddiwethaf. Diolchodd iddi ar lefel bersonol am y cymorth a'r gefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf, a hefyd ar ran ei chyd-weithwyr yn y Cyngor. Yna rhoddodd yr Arweinydd air o ddiolch i Morwena, ar ran yr holl aelodau, am ei gwasanaeth gwych ar hyd y blynyddoedd, a dymunwyd iddi bob hapusrwydd ar ei hymddeoliad.

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 6. CWESTIYNAU

*(Dosbarthwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau i'r aelodau ymlaen llaw.)*

### (1) Cwestiwn gan y Cynghorydd Rhys Tudur

"O ystyried bod y Cyngor yn prynu tai sydd ar y farchnad gydag arian cyhoeddus, pa system sydd gennych yn ei le i sicrhau nad yw'r Cyngor yn gordalu am y tai?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Tai, y Cynghorydd Craig ab Iago**

"Yn ychwanegol i'r ateb ysgrifenedig, hoffwn ddweud fy mod wedi prynu fy nhŷ cyntaf tua 5 mlynedd yn ôl, a gallaf dystiolaethu i'r ffaith mai prynu tŷ ydi'r trydydd profiad mwyaf anodd ar ôl colli rhywun agos a mynd trwy ysgariad. Nid ydych chi'n gwybod be' dydych chi ddim yn gwybod, nid ydych chi'n gallu ymddiried mewn unrhyw un, ac mae prisiau tai yn codi bob dydd. Nid ydych chi'n gwybod pwy sy'n cystadlu yn eich erbyn, ac roedd yn flwyddyn hunllefus i mi a'r teulu.

Un o'r 33 o gynlluniau sydd gennym yn y Cynllun Gweithredu Tai ydi ein bod ni, fel Cyngor, yn prynu tai er mwyn helpu i gartrefu pobl leol yn eu cymunedau. Wrth gwrs, mae'r broses lle mae'r Cyngor yn prynu tai hyd yn oed yn fwy cymhleth na hynny. Rhaid i ni wneud yn siŵr nad ydym yn prynu tai mae rhywun lleol am geisio eu prynu. Rhaid i ni wneud yn siŵr nad ydym yn gwneud camgymeriadau a'i fod yn costio gormod. Rhaid i ni wneud yn siŵr ein bod yn prynu tai lle mae angen. Mae'n gymhleth iawn a rŵan, wrth gwrs, yn wahanol i 4-5 mlynedd yn ôl, rydym ni'n cystadlu yn erbyn cronfeydd gwrych sydd nawr yn y farchnad prynu tai. Nid oedd Airbnb yn gymaint o beth, a rŵan mae pobl yn symud yma ar ôl y '*Zoom Boom'* a Chofid a Brexit. Ond y gwahaniaeth rhyngom ni a thrigolion ydi ein bod ni'n gwybod beth ydi'r *'unknowns'.* Mae gan ein Hadran ni'r profiad o weithredu yn y sector yma. Mae gennym y cymwysterau. Nid ydw i'n siŵr faint o syrfewyr sydd yn yr Adran, neu yn y Cyngor, ond mae hyd yn oed ein Prif Weithredwr yn syrfëwr, ac rydym ni'n adnabod pawb sy'n gweithio yn y sector. Mae gennym y sgiliau a'r profiad a'r wybodaeth, ond yn bwysicach na hynny yn fy marn i, mae gennym ni hefyd yr awydd. Mae pobl yn tueddu i feddwl bod ein staff yn byw mewn twr ifori neu'n gweithredu yn ôl yr egwyddor '*computer says no'*, ond gallaf dawelu eich meddyliau - nid yw hynny'n wir. Rwy'n gobeithio bod y mwyafrif ohonoch yma yn gwybod sut rydw i'n teimlo am y sefyllfa tai a pha mor bendant ydwyf i wneud rhywbeth am y peth. Rydw i eisiau i chi wybod bod y staff i gyd yn yr Adran Tai ac Eiddo hefyd yn teimlo'r un fath â mi am y pwnc. Maen nhw'n dilyn Ffordd Gwynedd go iawn a gobeithio y byddwch yn gweld hynny yn fuan. Maen nhw yma i gartrefu ein pobl ni yn ein cymunedau. Dyna pam maen nhw'n dod i'r gwaith bob dydd, ac yn aml iawn, rydw i'n trafod hyn hefo nhw, ac yn trafod y prosiectau rydych chi i gyd yn mynd i weld yn fuan gobeithio, a'r tai rydym ni'n prynu a phob

dim fel yna. Rydw i mewn trafodaethau hefo nhw, ac mae'n brofiad emosiynol i mi i weld eu bod nhw '*on board'* hefo'r hyn rydym ni'n ceisio gwneud fel cynghorwyr.

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Rhys Tudur**

"O ystyried bod prisiant syrfewyr yn gallu amrywio, oes yna fwy nag un prisiant gan y Cyngor ar gyfer pob tŷ (h.y. ydych chi'n cael mwy nag un pris) gan syrfëwr gwahanol?"

**Ateb gan y Pennaeth Tai ac Eiddo**

"Mae yna sawl syrfëwr yn gweithio i'r Cyngor. Mae gennym ni gyfanswm o 6, ac mae 2 ohonynt yn syrfewyr siartredig, ac wrth brisio, mae'n ofyn statudol ein bod yn sicrhau gwerth am arian, ac mae hynny'n greiddiol i'r holl benderfyniadau rydym ni'n wneud ynglŷn â phrynu. Hefyd, wrth gwrs, maen nhw'n siarad hefo ei gilydd ynglŷn â phrisiau ac yn sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau am ein harian cyhoeddus."

**(2) Cwestiwn gan y Cynghorydd John Pughe Roberts**

"Yn dilyn newidiadau arfaethedig i'r diwydiant unedau gwyliau Llywodraeth Cymru "fod rheidrwydd ar i bob uned gwyliau fod ar gael i'w osod am o leiaf 252 diwrnod, a'i osod am o leiaf 182 diwrnod i fod yn gymwys ar gyfer ardrethi busnes", ydi'r Cyngor yma yn barod i alw ar Lywodraeth Cymru i eithrio'r diwydiant Amaethyddol, (sydd wedi addasu cannoedd o hen feudai yn unedau gwyliau drwy'r drefn arallgyfeirio), o unrhyw ymrwymiad i'r newid deddfwriaethol yma?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Cyllid, y Cynghorydd Ioan Thomas**

"Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn ddiamwys mai'r angen i gael cartref i bobl Gwynedd ydi'r mater pwysicaf i Cyngor Gwynedd. Mae pob rhan o Wynedd – nid yn unig y pentrefi glan môr – yn gweld cartrefi yn cael eu trosi i fod yn unedau gwyliau. Ni allwn or-bwysleisio'r effaith mae'r golled yma o'r stoc dai yn ei gael ar ein cymunedau.

Wrth ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, rydym ni wedi nodi fod angen i gyfundrefn drethiant adlewyrchu'r niwed a achosir i gymdeithas gan yr hyn a drethir. Barn y Cyngor yw bod unedau gwyliau hunan ddarpar heb reolaeth yn cael effaith negyddol ar gymdeithas ar y cyfan, ac felly dylent fod yn destun trethiant lleol.

Tra bod unedau gwyliau hunanddarpar yn cynnig cyfle i hybu'r economi dwristiaeth leol pan mae cyflenwad rhesymol ohonynt, ymddengys bellach nad yw'r niferoedd yn gynaliadwy, ac mae anheddau byw yn cael eu colli ym mhob rhan o'r sir erbyn hyn gyda phobl sy'n gallu fforddio prynu sawl eiddo yn gweld cyfle i fuddsoddi, ond ar draul cymunedau a theuluoedd na all fforddio cartref o gwbl.

Nid oes cysondeb ar hyn o bryd rhwng deddfwriaeth trethiant a deddfwriaeth cynllunio. Ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad oedd os bydd trothwyon yn parhau yn eu lle ar gyfer trosglwyddo eiddo i'r gyfundrefn ardrethi annomestig, credwn y dylent fod wedi eu cysylltu â chaniatâd cynllunio yn hytrach na'r nifer o nosweithiau o osod.

Dylai'r drefn ganiatáu gwahaniaethu rhwng unedau sydd wedi cael eu datblygu yn benodol ar gyfer pwrpasau gwyliau a lle mae cyfyngiad cynllunio i'r perwyl hynny, a chartrefi sydd wedi bod ar y rhestr Treth Cyngor fel annedd byw.

Rydym wedi hysbysu Llywodraeth Cymru yn ddiweddar, mewn ymateb i'r gorchymyn drafft sy'n addasu'r trothwyon, na ddylid edrych i'r nifer o ddyddiau o wir osod ac argaeledd os yw eiddo wedi ei adeiladu yn bwrpasol fel uned gwyliau hunan gynhaliol a bod amod yn y caniatâd cynllunio yn atal defnydd o'r eiddo fel prif neu unig gartref, neu os yw perchennog yr eiddo wedi cael caniatâd cynllunio i drosi defnydd o fod yn dŷ annedd i fod yn westy. Rydym yn sicr yn ystyried adeiladau amaethyddol sydd wedi cael eu trosi yn unedau gwyliau o fewn y categori hwn. Mae'r newid diweddaraf am effeithio nifer o fusnesau cynhenid, ac mae hyn yn fater o bryder.

Mae mater ehangach yn codi petai eiddo o'r fath yn symud i mewn i fand Treth Cyngor, sef yr hyn fydd yn digwydd o ran y Premiwm. Mae oblygiadau bwriad y Llywodraeth i roi'r hawl i awdurdodau lleol gynyddu lefel y Premiwm i hyd at 300% dan ystyriaeth ar hyn o bryd, a bydd hyn yn fater i'r Cyngor llawn yn y man pella'."

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd John Pughe Roberts**

"Mae llawer o'r rhain wedi cael caniatâd cynllunio am wyliau tymor byr. A fyddai Cyngor Gwynedd yn fodlon ei newid i fod yn llefydd i aros yn hirach na thymor byr, ac efallai y byddai rhai ohonynt wedyn yn dod yn dai i bobl leol?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Cyllid, y Cynghorydd Ioan Thomas**

"Fy nealltwriaeth i ydi bod y Gweinidog yn ystyried eithriadau. Nid ydw i'n ymwybodol beth ydyn nhw, ac rwy'n meddwl efallai bod rhaid i ni aros tan fod yr eithriadau yma yn dod yn gyhoeddus. Ond yn sicr, rwy'n cydymdeimlo â nifer o fusnesau sy'n mynd i gael eu heffeithio gan hyn, ac yn sicr, mi fyddwn yn cyfleu'r neges honno i Lywodraeth Cymru."

**(3) Cwestiwn gan y Cynghorydd Gwynfor Owen**

"Yn dilyn penderfyniad y Cabinet ar 27 Gorffennaf 2021 i gyflwyno Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (GDMC): Rheoli Cŵn, hoffwn wybod sawl perchennog sydd wedi derbyn cosb am adael eu cŵn fynd i fannau gwaharddedig ar ein traethau ym Meirionnydd, ac ar ba draethau ym Meirionnydd mae'r dirwyon yma wedi cael eu rhoi?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd, y Cynghorydd Berwyn Parry Jones**

"Fel y gwelwch o'r ymateb ysgrifenedig, nid oes dirwy wedi ei gyflwyno ers cyhoeddi'r gorchymyn. Mae yna fwriad i gynyddu'r staff morwrol oherwydd mae yna brinder ar hyn o bryd oherwydd ymddeoliad a staff yn symud i swyddi eraill. Mae'r Cabinet hefyd wedi clustnodi cyllideb i gyflogi 2 warden gorfodaeth, ond er y bu i'r swyddi yma gael eu hysbysebu fwy nag unwaith, nid oes unrhyw un wedi ymgeisio. Wrth gwrs, mae hon yn broblem drwy'r Cyngor – ceisio llenwi swyddi, ac yn y sector preifat hefyd. Mae angen pwysleisio mai dirwyon ydi'r cam olaf sy'n cael ei gymryd ac addysgu perchnogion cŵn ydi'r nod. Felly mae'r swydd ddisgrifiadau wedi eu haddasu i roi mwy o bwyslais ar newid ymddygiad a chodi ymwybyddiaeth gan wir obeithio y bydd y swyddi yma wedi eu llenwi cyn bo hir."

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Gwynfor Owen**

"Gan fod hyn yn broblem mor fawr ar draethau Llandanwg a Harlech, a wnaiff yr Aelod Cabinet ei orau i geisio ychwanegu'r traethau hardd yma i'r llefydd sy'n cael y fflagiau plu ac i flaenoriaethu'r traethau yma i gael sylw pan gyflogir y swyddogion angenrheidiol?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd, y Cynghorydd Berwyn Parry Jones**

"Fel rhywun sydd wedi cymryd rhan mewn sawl triathlon yn Harlech, gallaf dystio, nid yn unig bod traeth Harlech yn hardd iawn, ond mae'n draeth hir iawn hefyd! Yn sicr, byddaf yn gofyn i'r Adran sicrhau bod fflagiau plu yn cyrraedd traethau Harlech a Llandanwg mor fuan â phosib', ac ymhellach, pan fo'r wardeiniaid mewn lle, bod traethau Llandanwg a Harlech yn derbyn blaenoriaeth fel bo angen."

**(4) Cwestiwn gan y Cynghorydd Richard Glyn Roberts**

"Mae'r canllawiau newydd ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth Gymraeg yn crybwyll cyflwyno trefniadau newydd ym mis Medi 2022. Lle mae Gwynedd arni yn hyn o beth?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Addysg, y Cynghorydd Beca Brown**

"Y sefyllfa ydi bod rhaid i bob ysgol ddweud yn glir wrth rieni ac wrth yr awdurdod lleol ym mha iaith maen nhw am addysgu, ac mae'r drefn honno mewn lle ers 2007. Y dewisiadau, wrth gwrs, ydi Cymraeg neu Saesneg, neu gyfuniad o'r ddwy iaith honno. Yng nghyd-destun cyhoeddiad Llywodraeth Cymru - 'Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr' mae Llywodraeth Cymru eisiau adolygu eu polisi categoreiddio er mwyn i rieni fedru dewis llwybr addysg eu plant gyda mwy o hyder, ond o'n rhan ni yn y sir yma, polisi iaith Gwynedd beth bynnag ydi i sicrhau addysg Gymraeg a dwyieithog gynhwysol i bob dysgwyr, waeth beth fo eu hil, eu cefndir neu hunaniaeth. Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod hynny'n rhywbeth i ni i gyd ymfalchïo yn fawr iawn ynddo, ac mae llwyddiant y polisi yna wedi bod yn amlwg yn y miloedd o siaradwyr naturiol Cymraeg rydym ni wedi cynhyrchu yn ein hysgolion yn y sir yma. Mae'r drefn newydd o ran categoreiddio yn adlewyrchu'r hyn sydd eisoes yn digwydd yn y sir yma, felly ni fydd yn arwain at fawr o newidiadau i ni, h.y. yn unol â'r canllawiau sydd wedi dod gan Lywodraeth Cymru a'u harweiniad nhw, bydd ysgolion cynradd y sir yn mynd i Gategori 3, sy'n cyd-fynd â pholisi iaith Gwynedd, sef mai'r Gymraeg ydi prif iaith addysg, cyfathrebu a hefyd ethos yr ysgol. Bydd pob ysgol uwchradd yn y sir hefyd yn mynd i Gategori 3, namyn dwy ysgol sydd ddim cweit yn cwrdd â'r gofynion ar hyn o bryd. Byddwn, wrth gwrs, yn disgwyl i'r ddwy ysgol dan sylw ddatblygu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ond mi fyddan nhw, am y tro, yn eistedd yng Nghategori T3 (Trosiannol) ac mi fydd yr Adran, wrth gwrs, yn gweithio'n agos iawn ac yn cefnogi'r ysgolion hynny i sicrhau'r cynnydd rydym ni'n dymuno ei weld. Felly, i grynhoi, bydd ysgolion Gwynedd yn gweithredu'r drefn newydd o gategoreiddio o fis Medi, a bydd y drefn newydd yn gwbl unol â'r polisi iaith llwyddiannus sydd gennym yn y sir yma eisoes."

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Richard Glyn Roberts**

"Categori 3 ysgol uwchradd ydi lle mae ychydig dros hanner y disgyblion yn gwneud o leiaf 70% o'u gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg. Dyna'r isafswm. Mae'r canllawiau yn annog ymestyn y ddarpariaeth. Oni ddylid ymgyrraedd felly tuag at osod ysgolion Gwynedd yng Nghategori 3P, sef lle mae'r ysgol uwchradd yn dysgu 100% o'r disgyblion am o leiaf 90% o'r amser drwy gyfrwng y Gymraeg?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Addysg, y Cynghorydd Beca Brown**

"Dim ond 10 ysgol 3P sydd yna yng Nghymru ar hyn o bryd, ac mae pob un o'r rheini i lawr yn ardal y De Ddwyrain, lle mae'n rhaid iddyn nhw, wrth gwrs, ddiffinio eu hunain ochr yn ochr â llawer iawn o ysgolion cyfrwng Saesneg. Wrth gwrs, mae'r sefyllfa yn bur wahanol yma yng Ngwynedd lle mae pob dysgwr yn cael

addysg Gymraeg a dwyieithog ac yn dod allan o'n hysgolion yn siaradwyr Cymraeg naturiol. Mae ein polisi ni yn gwbl gynhwysol felly. Wrth gwrs, byddem i gyd yn dymuno gweld ysgolion yn cynyddu eu darpariaeth, ac mae Categori 3 yn caniatáu hynny yn llwyr gan mai isafswm ydi'r 70% o ddarpariaeth. Gallwn gynyddu a gallwn annog a gweithio hefo'r ysgolion i gynyddu'r ddarpariaeth honno, ac rwy'n credu ei bod yn bwysig gwneud hynny heb greu arwahanrwydd ieithyddol, ac i aros yn gynhwysol fel rydym ni ar hyn o bryd. Mae polisi iaith Gwynedd yn gweithio, ac mae o'n gynhwysol. Mae data'r Cyfrifiad diwethaf yn dangos bod 73% o blant 3 oed yn siarad Cymraeg ac erbyn iddyn nhw gyrraedd 15 oed, mae'r ganran wedi codi i 92%. Mae'r data yn dangos hefyd mai Gwynedd sydd â'r nifer mwyaf o siaradwyr Cymraeg o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig y tu allan i Gaerdydd, sy'n dyst i'r ffaith bod pob un dysgwr yma yn ein sir yn cael addysg Gymraeg mewn ffordd gynhwysol, ac rwy'n siŵr eich bod yn cytuno bod hynny'n rhywbeth mor bwysig.

Ar nodyn mwy personol, mae'r ffaith mod i'n sefyll ger eich bron heddiw yn siarad Cymraeg yn ddiolch i'r addysg rydw i wedi cael yn ysgolion y sir, gan mai mewnfudwyr o Loegr ydi fy rhieni i, ac yn Saesneg y cefais fy magu, ac rydw i wedi cael fy Nghymraeg yn ysgolion cynradd ac uwchradd y sir yma. Felly mae'n bolisi sy'n gweithio ac mae'n bolisi llwyddiannus."

**7. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2021/22**

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, adroddiad yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo a mabwysiadu Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2021/22 fel darlun clir, cytbwys a chywir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2021/22.

Yn ystod ei gyflwyniad, cyfeiriodd yr Arweinydd at lwyddiannau megis datblygu Cynllun Adfywio, adeiladu Ysgol y Garnedd newydd a mabwysiadu Cynllun Newid Hinsawdd. Cyfeiriodd hefyd at lefydd i wella, megis y methiant i gyfarch y cwestiwn addysg ôl-16 yn Arfon, ond roedd yn hyderu'n fawr y byddai hynny'n flaenoriaeth yn y blynyddoedd nesaf yng Nghynllun newydd y Cyngor. Nododd hefyd y bu oedi yn Nalgylch Cricieth ar ddatblygiad ysgol newydd oherwydd gorfod cynnal archwiliad archeolegol.

Yna cyfeiriodd yr Arweinydd at y crynodeb o waith dydd i ddydd y gwasanaethau ar ddiwedd yr adroddiad, gan ddiolch i swyddogion y Gwasanaeth Cynllunio am eu gwaith gwych yn paratoi ymchwil a datrysiadau yn y maes ail-gartrefi. Nododd hefyd, gan fod y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn dod i ben, bod angen ail edrych ar y trefniadau cydweithio, ac eglurodd, yn sgil trafodaethau rhwng swyddogion cynllunio Gwynedd a Môn, y daethpwyd i'r casgliad y dylid argymell bwrw ymlaen gyda phroses i ddirwyn y trefniant presennol i ben, a hynny o ganlyniad i'r newidiadau i'r cyd-destun polisi cynllunio cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ers sefydlu'r trefniant cydweithio yn 2001. Eglurodd ymhellach y byddai'r ddau gyngor yn parhau i gydweithio'n agos gyda threfniadau monitro'r hen Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, ynghyd ag unrhyw gyfleoedd eraill fyddai'n amlygu eu hunain. Byddai'r mater yn cael ei gyflwyno i Gabinet Cyngor Gwynedd a Phwyllgor Gwaith Cyngor Ynys Môn ar 19 Gorffennaf, a phetai'r ddau gorff yn cydsynio, byddai'r ddwy sir yn llunio eu Cynllun Datblygu Lleol newydd ar wahân.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Gan gyfeirio at uchafbwyntiau'r flwyddyn ar dudalen 16 o'r rhaglen, holwyd sut roedd perfformiad y Cyngor o ran ailgylchu, ailddefnyddio neu gompostio gwastraff cartrefi yn cymharu â'r targed, ac yn arbennig targed tirlenwi Llywodraeth Cymru. Mewn ymateb, nodwyd bod perfformiad Gwynedd dros 64% ar hyn o bryd, o gymharu â'r targed statudol o 70% erbyn Mawrth 2025. Gwelwyd llithriad, o bosib', dros y cyfnod Cofid yn y gwastraff gweddilliol sy'n cael ei gynhyrchu, ac roedd angen atgoffa'r trigolion am y gwasanaeth casglu

bwyd ac ailgylchu. Ymhellach na hynny, byddai'n rhaid edrych ar raglen waith i symud yr agenda er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd y targed statudol. O safbwynt tirlenwi, eglurwyd nad oedd unrhyw wastraff yn mynd i dirlenwi bellach a bod yr holl wastraff gweddilliol yn cael ei losgi ym Mharc Adfer, y Fflint fel rhan o bartneriaeth ar y cyd rhwng cynghorau'r Gogledd.

- Gan gyfeirio at y sylw at dudalen 19 o'r rhaglen bod yr argyfwng costau byw "wedi gorfodi'r Cyngor i ddargyfeirio adnoddau ac addasu gan ymrwymo i waith a phrosiectau newydd", holwyd a oedd ein cyllideb yn ddigon cadarn i wynebu'r heriau hyn, neu a fyddai'n rhaid ail-edrych ar y mater. Holwyd hefyd, petai'n rhaid dargyfeirio, o ble fyddai'r adnoddau yn dod, ac a fyddai hynny'n creu bylchau yn ein gwasanaethau. Mewn ymateb, nodwyd ein bod yn gwybod ymlaen llaw am y tro cyntaf beth fydd ein setliad flwyddyn nesaf a'r flwyddyn ddilynol. Roedd setliad cyffredinol Cymru tua 3.5% ar gyfer y flwyddyn nesaf a 2.5% ar gyfer y flwyddyn ganlynol, ond roedd Gwynedd wastad yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Petai chwyddiant yn cynyddu i 11% erbyn hydref eleni, fel sy'n cael ei ddarogan, byddai Gwynedd a phob cyngor arall mewn sefyllfa anodd iawn. Ni fyddai neb wedi gallu rhagweld y fath sefyllfa. Mawr obeithid y byddai'r Llywodraeth yn deall hynny ac yn helpu'r Cyngor mewn rhyw ffordd, ond roedd yn rhaid bod yn barod i gynllunio ymlaen llaw rhag ofn na fyddai hynny'n digwydd.
- Mynegwyd anfodlonrwydd nad oedd pobl ddieithr sy'n dod i dai gwyliau yn ardal Aberdyfi yn ailgylchu a'u bod yn gorlenwi'r bagiau duon, ac yn llenwi biniau pobl eraill â'r bagiau yma. Mewn ymateb, nodwyd bod hyn yn broblem mewn sawl ardal ar draws y sir lle mae tai gwyliau, a bod her o'n blaenau i newid y drefn ac i'r swyddogion ailgylchu fynd allan a thargedu a sicrhau cydymffurfiaeth â'r gwasanaeth. Nodwyd ymhellach y byddai'r Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn cysylltu â'r aelod i weld beth y gellir ei wneud yn Aberdyfi yn benodol.
- Mynegwyd anfodlonrwydd ynglŷn â'r cyfeiriadau at ddatblygiad Safle Atomfa Trawsfynydd yn yr adroddiad, ar y sail ein bod yn cael ein camarwain ynglŷn â diogelwch safleoedd niwclear o'r fath. Nodwyd y byddai gosod y datblygiad newydd wrth ochr yr hyn sydd ar y safle'n barod yn golygu bod y naill yn peryglu'r llall, a byddai hefyd yn effeithio ar ein siawns o sicrhau Annibyniaeth i Gymru, oherwydd y gost sy'n gysylltiedig â datgomisiynu. Mynegwyd syndod hefyd bod Plaid Cymru yn rhoi hyn gerbron, o ystyried bod y Blaid yn erbyn unrhyw safleoedd newydd yn ymwneud ag ynni niwclear. Ar sail y dadleuon hynny, cynigiwyd gwelliant bod y Cyngor naill ai'n dileu'r paragraffau sy'n cyfeirio at ddatblygiadau niwclear (sef y 4ydd paragraff ar dudalen 24 o'r rhaglen, a'r 3ydd paragraff ar dudalen 26), neu'n gwrthod yr adroddiad yn ei gyfanrwydd. Nododd aelod arall mai'r hyn oedd gerbron oedd mynegiant o gefnogaeth ddiamwys i brosiect yn y dyfodol nad oedd eto wedi derbyn cymeradwyaeth ffurfiol drwy broses ddemocrataidd y Cyngor. Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Monitro mai'r oll oedd gerbron y Cyngor oedd adroddiad ffeithiol am berfformiad prosiectau sy'n bodoli eisoes, ac nad oedd egwyddor y prosiectau hynny dan ystyriaeth. Eglurodd hefyd fod prosiect Trawsfynydd wedi bod drwy broses ddemocrataidd eisoes gan fod cyfeiriad ato yng Nghynllun y Cyngor a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym mis Mawrth eleni, ac nad oedd y Cyngor mewn trefn i ail-agor y mater o fewn 6 mis. Awgrymodd yr aelod ymhellach fod modd addasu geiriad y paragraffau i gyfeirio at ffaith yn hytrach na dyhead. Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Monitro fod sawl agwedd o'r adroddiad yn cyfeirio at brosiectau sydd ar y gweill, ac yn manylu ar eu perfformiad hyd yn hyn. Nid oedd tynnu/newid y geiriad yn newid y prosiect na'r cyd-destun ffeithiol, a thrwy gymeradwyo'r adroddiad, byddai'r aelodau yn cymeradwyo perfformiad y Cyngor, yn hytrach na chymeradwyo'r prosiect ei hun.
- Gan gyfeirio at Amcan Llesiant y Cyngor o sicrhau bod trigolion Gwynedd yn mwynhau bywyd hapus, iach a diogel (tudalen 20 o'r adroddiad), nodwyd nad oedd trigolion y sir bellach yn teimlo'n hapus, yn iach nac yn ddiogel. Roedd pobl yn dioddef gan eu bod yn methu cael meddyg nac ambiwlans, ac nid oedd yna welyau nyrsio o gwbl ym Mhen Llŷn, a phwysleisiwyd yr angen i'r Cyngor

gael rhyw fath o ddylanwad ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mewn ymateb, nodwyd bod gallu'r Cyngor i ddatrys y broblem hon yn gyfyngedig, ond y byddai'r Arweinydd yn lleisio'r pryderon a fynegwyd ar bob cyfle bosib', boed hynny mewn cyfarfodydd gyda Phrif Weithredwr y Bwrdd Iechyd neu Lywodraeth Cymru. Nodwyd ymhellach, gyda chyllideb y Cyngor dan wasgfa sylweddol yn ogystal, ei bod yn beryg' y byddai'n rhaid i ninnau hefyd wynebu toriadau mewn rhai gwasanaethau yn y blynyddoedd i ddod.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad fel adlewyrchiad cywir, cytbwys a chlir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2021/22, a'i fabwysiadu.**

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2021/22

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol ei hadroddiad blynyddol mewn perthynas â pherfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn Gwynedd yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Diolchodd y Cyfarwyddwr i Manon Elwyn Hughes (Uwch Swyddog Gweithredol) am ei chymorth yn rhoi'r adroddiad blynyddol at ei gilydd. Fel rhan o'i chyflwyniad, amlygodd y Cyfarwyddwr rai o'r gwersi a ddysgwyd, gan amlinellu'r blaenoriaethau am y flwyddyn i ddod. Eglurodd hefyd sut y bu i'r Gwasanaeth asesu anghenion pobl, a'u cynnwys yn ganolog wrth siapio'r gwasanaethau a'r ddarpariaeth gofal. Nododd fod perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd yn dda ar y cyfan eto eleni, a bod barn Arolygiaeth Gofal Cymru yn cyd-fynd â hynny. Ychwanegodd fod y 2 flynedd ddiwethaf wedi gosod heriau anhygoel ar y Gwasanaeth, ac roedd yn amlwg o'r perfformiad bod rheolwyr a staff wedi gwneud ymdrech arwrol i allu dygymod gyda'r gofynion a fu arnynt yn ystod y cyfnod.

Ar ddiwedd ei chyfnod yn y swydd, nododd y Cyfarwyddwr y bu'n fraint bod yn Gyfarwyddwr ac yn Bennaeth Adran cyn hynny, a diolchodd i bawb y bu'n cydweithio â hwy dros y blynyddoedd. Diolchodd i'r aelodau, yr aelodau craffu a'r aelodau cabinet yn y maes gofal dros y 10 mlynedd ddiwethaf. Nododd hefyd iddi gael cefnogaeth wych gan dri Phrif Weithredwr yn ystod ei chyfnod yn y swydd, sef Harry Thomas, Dilwyn Williams a'r Prif Weithredwr presennol, Dafydd Gibbard. Manteisiodd hefyd ar y cyfle i ddiolch i'r Penaethiaid Adran, Marian Parry Hughes (Pennaeth Plant a Theuluoedd) ac Aled Davies (Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant) a'r diweddar Gwenan Parry am eu gwaith yn y maes gofal, ac hefyd i Catrin Thomas (Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Teuluoedd) a Carys Fon Williams (Pennaeth Tai ac Eiddo) am eu gwaith ar y rhaglen Cefnogi Pobl Gwynedd. Diolchodd hefyd i'r holl staff mewnol, allanol, trydydd sector, gofalwyr di-dâl a rhieni maeth fu'n rhan o'i siwrne dros y 10 mlynedd ddiwethaf, a dymunodd yn dda i'r Cyfarwyddwr newydd.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Nodwyd bod angen cynnwys mwy o wybodaeth dan fesur perfformiad rhif 20 ar dudalen 196 o'r rhaglen (*Canran y plant a ddychwelodd adref o ofal yn ystod y flwyddyn*) er mwyn gwneud yn glir i bobl y tu allan i'r system gofal, aelodau newydd, ayyb, bod strategaethau mewn lle i sicrhau bod y plant hyn yn ddiogel. Mewn ymateb, cadarnhawyd y byddai'r geiriad yn cael ei adolygu, a gofynnwyd i'r aelodau gysylltu â'r Cyfarwyddwr os oeddent o'r farn bod unrhyw beth arall yn yr adroddiad yn annelwig.
- Gan gyfeirio at y Cynllun Awtistiaeth (tudalen 169 o'r rhaglen), nodwyd y deellid yn flaenorol bod y Cynllun yn cychwyn gyda phlant ac yn symud ymlaen i bobl, ond bod sôn am blant a phobl yn yr un paragraff yma. Mewn ymateb, nodwyd balchder bod y Cynllun yn ei le a'i fod wedi deillio o ddysgu o brofiadau unigolion sydd ag awtistiaeth, a nodwyd y mawr obeithid y byddai hynny'n parhau.

Cytunid bod yna waith i'w wneud o ran y cyfnod trosiannol, ac er bod rhai siroedd wedi cyfuno eu gwasanaethau awtistiaeth i blant ac oedolion, ni chredid ei bod yn ofynnol gwneud hynny. Fodd bynnag, roedd yn rhaid gwneud yn siŵr bod yr unigolion dan sylw yn trosglwyddo'n ddi-dor o un cyfnod o'u bywyd i un arall o ran gwasanaethau'r Cyngor, ac roedd hynny'n rhywbeth y byddai'n rhaid i'r tîm fyddai'n cael ei sefydlu a'r cyfarwyddwr newydd gadw golwg arno.

- Mewn ymateb i gwestiwn, nodwyd y credid bod y Cyngor wedi hysbysebu am gydlynydd a 2 weithiwr cymdeithasol i ddatblygu a gweithredu ar y Cynllun Awtistiaeth, ond y byddai swyddog o'r gwasanaeth yn cysylltu'n ôl â'r aelod i gadarnhau'r sefyllfa.
- Gan gyfeirio at y bwriad i sicrhau hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth o awtistiaeth ar gyfer y gweithlu, holwyd a fyddai hyn ar gyfer y gweithlu cyfan yng Ngwynedd, staff y Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Tim Plant yn unig. Mewn ymateb, eglurwyd bod rhai staff angen hyfforddiant mwy arbenigol nag eraill, ond y disgwylid y byddai pawb, yn aelodau a staff, yn cael yr ymwybyddiaeth o'r maes pwysig yma.
- Gofynnwyd i'r Cadeirydd anfon nodyn at staff rheng flaen y Cyngor ar ran yr aelodau i ddiolch iddynt am eu holl waith mewn amgylchiadau anodd iawn dros y 2 flynedd ddiwethaf.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 9. PENODI CADEIRYDD I'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH

Gwahoddwyd y Cyngor i benodi cadeirydd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar gyfer 2022/23.

Diolchodd cyn-gadeirydd y pwyllgor, y Cynghorydd Anne Lloyd Jones, i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth, y Rheolwr Democratiaeth ac Iaith a staff y Gwasanaeth Democratiaeth am eu holl gefnogaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Dewi Owen yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am 2022/23.**

## 10. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH 2021/22

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth ei adroddiad blynyddol ar ran y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yng nghyswllt cefnogaeth i aelodau. Diolchodd y Pennaeth i Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn ystod cyfnod yr adroddiad, y Cynghorydd Anne Lloyd Jones, aelodau'r pwyllgor a'r swyddogion o fewn y gwasanaeth sy'n rhoi'r gefnogaeth o ddydd i ddydd.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Holwyd a fyddai'n bosib' trefnu hyfforddiant i'r aelodau ar sut i ddefnyddio'r Fewnrwyd Aelodau. Mewn ymateb, cadarnhawyd y byddai hynny'n bosib', a nodwyd bod swyddogion TG ar gael i ddarparu cymorth o ddydd i ddydd i'r aelodau hefyd.
- Mewn ymateb i sylw bod Cyngor Gwynedd wedi bod yn araf yn cyhoeddi canlyniadau'r etholiadau diweddar, nodwyd bod y swyddogion yn ymwybodol bod peth oedi wedi bod gyda rhai canlyniadau, ac yn ymwybodol beth sydd angen ei roi mewn lle er sicrhau bod yr holl ganlyniadau yn ymddangos yn amserol yn y dyfodol.
- Mynegwyd anfodlonrwydd bod dyddiadau cyfarfodydd wedi newid ers i'r Cyngor fabwysiadu calendr pwyllgorau 2022/23 yn ei gyfarfod ym mis Mawrth. Mewn ymateb, ymddiheurwyd am unrhyw anhwylustod roedd hyn wedi'i achosi i'r

aelodau, ond eglurwyd bod dyddiad y cyfarfod hwn o'r Cyngor wedi ei symud ymlaen wythnos am resymau yn ymwneud â chynllunio busnes y Cyngor, a bod hynny wedi'i rannu yn y Grŵp Busnes yn syth ar ôl yr etholiadau.

- Diolchwyd i'r Gwasanaeth Democratiaeth am gynnal cyfundrefn bwyllgorau'r Cyngor yn ystod y cyfnod Cofid tra roedd pawb yn gweithio o gartref.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**11. ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU 2021/22**

Cyflwynodd Cadeirydd y Fforwm Craffu, y Cynghorydd Beth Lawton, adroddiad blynyddol craffu ar gyfer 2021/22. Diolchodd i'r cadeiryddion ac is-gadeiryddion craffu a'r holl aelodau craffu am eu gwaith yn ystod y flwyddyn. Diolchodd hefyd i swyddogion y Gwasanaeth am gefnogi'r aelodau a llunio'r adroddiad.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**12. ADOLYGU RÔL CRAFFU YN SGIL NEWIDIADAU I'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO AC ADDASIADAU I'R CYFANSODDIAD YN SGIL PENODI CABINET**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i addasu trefniadau craffu materion corfforaethol, a hefyd yn cyflwyno'r wybodaeth am addasiadau i'r Cabinet.

**PENDERFYNWYD**

1. **Addasu Adran 13 Rhan 2 y Cyfansoddiad drwy ddileu'r swyddogaethau canlynol o gylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: "adolygu a chraffu ar faterion yn ymwneud â gweithrediad mewnol y Cyngor megis strategaethau corfforaethol, partneriaethau, ymgysylltu , trawsnewid busnes, trefniadau effeithlonrwydd a'r gweithlu a'r swyddogaethau a gyflawnir gan yr Adran Gyllid, yr Adran Gefnogaeth Gorfforaethol a'r Tîm Arweinyddiaeth."**
2. **Addasu Rhan 7 o'r Cyfansoddiad yn unol ag Atodiad 1 i'r adroddiad i osod y cyfrifoldebau a nodir gyda'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi.**
3. **Derbyn er gwybodaeth yr addasiadau i Adran 13 – Rhan 2 o'r Cyfansoddiad, Aelodaeth a Chyfrifoldebau Cabinet.**

**13. PANEL CYFWELD AELOD LLEYG I'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid adroddiad yn nodi ei bod yn briodol adolygu aelodaeth Panel Cyfweld Aelodau Lleyg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, gan fod Cadeirydd y pwyllgor bellach yn aelod lleyg, ac yn argymell addasu'r aelodaeth i gynnwys Cadeirydd y Cyngor, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth a'r Aelod Cabinet Cyllid.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd na fyddai Cadeirydd / Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn aelodau o'r Fforwm Craffu gan fod y rôl craffu yn symud oddi wrth y pwyllgor yn sgil newidiadau yn y ddeddfwriaeth.

**PENDERFYNWYD addasu aelodaeth Panel Cyfweld Aelodau Lleyg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gynnwys Cadeirydd y Cyngor, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth a'r Aelod Cabinet Cyllid.**

**14. PENODI AELODAU I'R PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad ar y broses o benodi Aelodau Etholedig ac Aelod Pwyllgor Cymunedol o'r Pwyllgor Safonau, gan wahodd y Cyngor i dderbyn argymhelliad y Grŵp Busnes i benodi'r Cynghorwyr Beth Lawton, Anne Lloyd-Jones a Dewi Owen, fel Aelodau Etholedig o'r Pwyllgor, a'r Cynghorydd Richard Parry Hughes, Cyngor Cymuned Llannor, fel Aelod Pwyllgor Cymunedol, tan yr etholiadau llywodraeth leol cyffredin nesaf yn dilyn eu penodiad.

**PENDERFYNWYD**

1. **Penodi'r Cynghorwyr Beth Lawton, Anne Lloyd-Jones a Dewi Owen i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau fel Aelodau Etholedig tan yr etholiadau llywodraeth leol cyffredin nesaf yn dilyn eu penodiad.**
2. **Penodi'r Cynghorydd Richard Parry Hughes, Cyngor Cymuned Llannor, i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau fel Aelod Pwyllgor Cymunedol tan yr etholiadau llywodraeth leol cyffredin nesaf yn dilyn ei benodiad.**

## 15. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL / PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth adroddiad:-

- ar adolygiad o gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor yn sgil ffurfio grŵp gwleidyddol newydd, sef Grŵp Llafur/Rhyddfrydol, dan arweiniad y Cynghorydd Stephen Churchman;
- yn gwahodd y Cyngor i enwebu un aelod o Grŵp Plaid Cymru ac un aelod o'r Grŵp Annibynnol i i gynrychioli'r Cyngor ar y Panel Heddlu a Throsedd am dymor y Cyngor hwn yn unol â'r dyraniad a roddwyd i Wynedd.

**PENDERFYNWYD**

1. **Mabwysiadu'r dyraniad seddau fel a nodir yn Atodiad A isod, gan ddirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth wneud penodiadau i'r pwyllgorau ar sail y cydbwysedd gwleidyddol, ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol.**
2. **Enwebu'r Cynghorwyr Edgar Wyn Owen (Grŵp Plaid Cymru) a John Pughe (Grŵp Annibynnol) i gynrychioli'r Cyngor ar y Panel Heddlu a Throsedd am dymor y Cyngor hwn yn unol â'r dyraniad a roddwyd i Wynedd.**

## 16. RHYBUDDION O GYNNIG

(A) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Rhys Tudur o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

"O ystyried yr argyfwng a achosir gan ddiffyg rheolaeth ar ail dai, bod y Cyngor Llawn yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu ar frys ar yr ymgynghoriadau canlynol a ddaeth i ben ym mis Chwefror a Mawrth; deddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr, cynllun tai cymunedau Cymraeg, ail gartrefi: amrywiadau lleol i gyfraddau'r dreth trafodiadau tir."

Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w gynnig, gan nodi:-

- Bod y cynigion yn glodwiw, a bod rhaid rhoi clod i'r Llywodraeth amdanynt, ond er i'r ymgynghoriadau ddod i ben ym mis Chwefror a mis Mawrth eleni, nad oedd dim wedi'i gynnig na'i gyhoeddi yn eu sgil.
- Na allai'r materion hyn lithro heibio haf arall tan y flwyddyn nesaf, a'i bod yn hollbwysig bod aelodau Gwynedd, fel cynrychiolwyr y sir sydd â'r nifer uchaf o dai haf drwy Gymru gyfan, yn dwyn pwysau ar Lywodraeth Cymru i weithredu, ac yn eu hatgoffa o'r sefyllfa argyfyngus yn y sir.

- Y croesawid bod arwyddion o symud ar y pwnc, ond na ellid dibynnu ar arwyddion yn unig, a bod rhaid i'r Llywodraeth weithredu ar yr ymgynghoriadau hyn heb oedi, er budd ein cymunedau a'n hiaith.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

**"O ystyried yr argyfwng a achosir gan ddiffyg rheolaeth ar ail dai, bod y Cyngor Llawn yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu ar frys ar yr ymgynghoriadau canlynol a ddaeth i ben ym mis Chwefror a Mawrth; deddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr, cynllun tai cymunedau Cymraeg, ail gartrefi: amrywiadau lleol i gyfraddau'r dreth trafodiadau tir."**

(B) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Gwynfor Owen o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

"Ers 1958 mae Cymru wedi methu allan ar un o lwyfannau mwyaf y Byd, sef Cwpan Pêl Droed y Byd (Dynion). Newidiodd hyn ar Nos Sul Mehefin 5ed gydag ein Tîm Cenedlaethol yn gweithio'n rhagorol fel Tîm i sicrhau ein bod yn cyrraedd rowndiau terfynol y Gystadleuaeth yma.

Mae'r Cyngor yn llongyfarch ein Tîm Cenedlaethol ac yn dymuno pob llwyddiant iddynt yn y Rowndiau terfynol. Mae'r Cyngor hefyd yn llongyfarch Cymdeithas Pêl Droed Cymru am feithrin yr ymwybyddiaeth Cenedlaethol Cymreig o fewn y tîm i sicrhau'r fuddugoliaeth. 'Rydym yn llongyfarch y Gymdeithas ar eu defnydd o'r Gymraeg a hefyd ar sut maent wedi mynd ati i hyrwyddo'r iaith. Mae Tîm Pêl Droed Cymru yn wers, nid yn unig i bob Cymdeithas Chwaraeon arall yng Nghymru, ond hefyd i bob Sefydliad sydd yn ein gwlad. Yng ngeiriau Cymdeithas Pêl Droed Cymru DIOLCH.

Yn ychwanegol mae'r Cyngor yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd pob mantais o'n presenoldeb yn y Rowndiau terfynol i hyrwyddo Ein Gwlad ac ein Hiaith ar y llwyfan byd-eang yma."

Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w gynnig, gan nodi:-

- Mai pwrpas y cynnig oedd llongyfarch y tîm ar eu perfformiad, ond yn llawer iawn mwy na hynny, llongyfarch Cymdeithas Pêl Droed Cymru am y ffordd maent wedi magu balchder yn y Tîm Cenedlaethol.
- Bod y Gymdeithas Pêl Droed wedi arwain y ffordd i feithrin hyn trwy ddod â siaradwyr Cymraeg a di-gymraeg at ei gilydd i ymfalchïo ein bod ni yn wlad gydag iaith a diwylliant unigryw ein hunain.
- Bod hyn yn wers, nid yn unig i bob cymdeithas chwaraeon arall yn ein gwlad, ond hefyd yn wers i bob sefydliad arall yn ein gwlad.
- Bod angen i Lywodraeth Cymru fanteisio hyd eithaf eu gallu ar y ffaith y bydd Cymru ar lwyfan byd-eang, a mynd ati i werthu ein gwlad fel gwlad hyderus, agored, fyrlymus, weithgar, gyda'i diwylliant unigryw.

Mynegwyd cefnogaeth i'r cynnig gan aelodau, a dymunwyd yn dda hefyd i Dîm Pêl-droed Merched Cymru yn eu hymdrech hwythau i gyrraedd rowndiau terfynol Cwpan y Byd Merched 2023.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

**"Ers 1958 mae Cymru wedi methu allan ar un o lwyfannau mwyaf y Byd, sef Cwpan Pêl Droed y Byd (Dynion). Newidiodd hyn ar Nos Sul Mehefin 5ed gydag ein Tîm Cenedlaethol yn gweithio'n rhagorol fel Tîm i sicrhau ein bod yn cyrraedd rowndiau terfynol y Gystadleuaeth yma.**

**Mae'r Cyngor yn llongyfarch ein Tîm Cenedlaethol ac yn dymuno pob llwyddiant iddynt yn y Rowndiau terfynol. Mae'r Cyngor hefyd yn llongyfarch Cymdeithas Pêl Droed Cymru am feithrin yr ymwybyddiaeth Genedlaethol Gymreig o fewn y tîm i sicrhau'r fuddugoliaeth. 'Rydym yn llongyfarch y Gymdeithas ar eu defnydd o'r Gymraeg a hefyd ar sut maent wedi mynd ati i hyrwyddo'r iaith. Mae Tîm Pêl Droed Cymru yn wers, nid yn unig i bob Cymdeithas Chwaraeon arall yng Nghymru, ond hefyd i bob Sefydliad sydd yn ein gwlad. Yng ngeiriau Cymdeithas Pêl Droed Cymru DIOLCH.**

**Yn ychwanegol mae'r Cyngor yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd pob mantais o'n presenoldeb yn y Rowndiau terfynol i hyrwyddo Ein Gwlad ac ein Hiaith ar y llwyfan byd-eang yma."**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00yp a daeth i ben am 4.00yp.

______________________________

**CADEIRYDD**

**ATODIAD – DYRANIAD SEDDI AR BWYLLGORAU**

| A | Plaid Cymru | Annibynnol | Llafur/ Rhyddfrydol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | 12 | 6 | 0 | 18 |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau | 11 | 6 | 1 | 18 |
| Pwyllgor Craffu Gofal | 11 | 6 | 1 | 18 |
| Llywodraethu ac Archwilio | 8 | 4 | 0 | 12 |

| B | Plaid Cymru | Annibynnol | Llafur/ Rhyddfrydol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democrataidd | 9 | 5 | 1 | 15 |
| Cynllunio | 9 | 5 | 1 | 15 |
| Trwyddedu Canolog/Cyffredinol | 10 | 5 | 0 | 15 |
| Iaith | 10 | 5 | 0 | 15 |
| Penodi Prif Swyddogion | 10 | 5 | 0 | 15 |
| Apelau Cyflogaeth | 5 | 2 | 0 | 7 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y seddau** | **95** | **49** | **4** | **148** |

| C | Plaid Cymru | Annibynnol | Llafur/ Rhyddfrydol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 4 | 2 | 1 | 7 |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 7 | 4 | 0 | 11 |
| CYSAG | 4 | 3 | 0 | 7 |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd | 5 | 2 | 0 | 7 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y seddau** | **115** | **60** | **5** | **180** |